Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

## ADRODDIAD / TAFLEN CRYNODEB O BENDERFYNIAD

**DIBEN: PENDERFYNIAD Y COMISIYNYDD**

**Amseru: Brys - cyn dechrau blwyddyn ariannol 2019/20**

**Teitl: Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2019/20**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Cyllid**

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae’r ddogfen hon yn amlygu Strategaeth Rheolaeth Trysorlys y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, gan gynnwys Dangosyddion Darbodus, y Gofyniad Ariannu a’r polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2019/20, ar ôl i’r Cydbwyllgor Archwilio graffu arnynt yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2019.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Rwyf yn cadarnhau fy mod wedi ystyried a oes gennyf i unrhyw fuddiant personol neu anffafriol ai peidio yn y mater hwn ac yn gwneud y penderfyniad arfaethedig gan gydymffurfio ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwyf yn cymeradwyo’r cais uchod.

**Llofnod:** **Dyddiad: 7 Mawrth 2019**

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Heddlu Police DYFED-POWYS

**DIBEN:** CRAFFU'R CYDBWYLLGOR ARCHWILIO

**Amseru: cyn dechrau blwyddyn ariannol 2019/20**

**Teitl:** Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2019/20

**Categori'r Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Cyllid

**Crynodeb Gweithredol:**

Mae Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref yn datgan bod y Comisiynydd Heddlu a Throseddu'n uniongyrchol gyfrifol am fenthyciadau, buddsoddiadau a benthyca arian. Dylai Prif Swyddog Ariannol y Comisiynydd benderfynu pa fuddsoddiadau sydd i'w gwneud yn lleol, a chymeradwyo unrhyw fenthyca. Mae penderfyniadau ar Ariannu a Benthyca at ddibenion gwariant cyfalaf yn rhan o gyfrifoldeb y Comisiynydd hefyd.

Trwy ddilyn rheoliadau ariannol a Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol a gytunwyd yn lleol, a chan gydymffurfio â'r polisïau a gymeradwywyd, gallai staff Prif Swyddog Ariannol yr Heddlu reoli Benthyciadau a Buddsoddiadau o ddydd i ddydd.

Dylid trefnu bob benthyciad a buddsoddiad yn unol â'r arfer gorau a amlygir yng Nghod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Rheolaeth Trysorlys, a dylai unrhyw fenthyca gydymffurfio â Chod Darbodus y Sefydliad hwnnw ynghylch Ariannu Cyfalaf gan Awdurdodau Lleol.

Mae Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus yn gofyn bod sefydliadau'n mabwysiadu Datganiad Strategaeth ar gyfer Rheolaeth Trysorlys bob blwyddyn. Mae'r Datganiad yn cynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol hefyd, sy'n ofyniad dan Gyfarwyddyd Buddsoddi Llywodraeth Cymru.

Mae'r ddogfen hon yn amlygu polisïau a gweithdrefnau'r Comisiynydd i fodloni'r gofynion statudol hyn yn 2019/20.

**Argymhelliad:**

I'w ystyried a derbyn sylwadau gan y Cyd-bwyllgor Archwilio.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Heddlu Police DYFED-POWYS

**Adroddiad Prif Swyddog Ariannol CHTh**

**Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Strategaeth Fuddsoddi**

## 1. Diben yr Adroddiad

Yn unol â gofynion *Cod Ymarfer Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus, argraffiad 2011* y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (cod CIPFA) mae'n rhaid i'r CHTh gymeradwyo strategaeth rheoli'r trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol.

Yn dilyn ymgynghori y llynedd, mae CIPFA wedi cyhoeddi argraffiad newydd ym mis Rhagfyr 2017 o Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer a Chanllawiau Traws-sectoraidd a'r Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol. Mae'r gofyniad i gyhoeddi Datganiad Rheoli'r Trysorlys yn ddigyfnewid yng nghod 2017.

O ystyried amseru hwyr y cyhoeddiad, y cyngor oddi wrth Gynghorwyr Rheoli'r Trysorlys y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yw y dylid cynhyrchu Strategaeth 2018/19 yn unol â chod 2011 er mwyn caniatáu dealltwriaeth ac ystyriaeth lawnach. Nid yw'r cod newydd yn cynnwys unrhyw newidiadau na gofynion sylfaenol newydd ac yn wir mae'n dileu nifer o ddangosyddion darbodus.

Bydd Panel Rheoli'r Trysorlys a Chyfalaf CIPFA hefyd yn cynhyrchu dadansoddiad o'r canllawiau statudol yn ei ddiwygiadau i'w gyhoeddiad *Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Canllawiau i Awdurdodau Lleol gan gynnwys Awdurdodau Heddlu ac Awdurdodau Tân* maes o law.

Yn ychwanegol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) y *Canllaw ar Fuddsoddiadau Awdurdod Lleol* diwygiedig ym mis Mawrth 2010 sy'n gofyn i'r Awdurdod gymeradwyo strategaeth fuddsoddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol.

Mae'r adroddiad hwn yn bodloni rhwymedigaeth gyfreithiol y CHTh o dan *Ddeddf Llywodraeth Leol 2003* i ystyried Cod CIPFA a Chanllaw LlC.

Mae'r CHTh wedi buddsoddi symiau sylweddol o arian ac felly mae'n agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli cyllid a fuddsoddwyd, ac effaith newidiadau yn y gyfradd llog ar refeniw. Mae adnabod, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yn ganolog felly i strategaeth rheoli'r trysorlys y CHTh.

Yn unol â Chanllawiau LlC, bydd gofyn i'r CHTh gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys diwygiedig os bydd y tybiaethau y seilir yr adroddiad hwn arnynt yn newid yn sylweddol. Byddai amgylchiadau o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, newid mawr annisgwyl mewn cyfraddau llog neu yn lefel y balans buddsoddi.

Dylai Prif Swyddog Ariannol y CHTh weithredu a monitro'r polisïau a gweithdrefnau rheoli'r trysorlys yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau proffesiynol eraill.

## 2. Y Cyd-destun allanol

## 2.1 Cefndir Economaidd

Ar ôl codi i dros $80/baril tua chanol y flwyddyn, cwympodd pris olew i ychydig dros $60/baril ym mis Rhagfyr. Roedd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn y Deyrnas Unedig yn 2.3% y flwyddyn ym mis Tachwedd, yn unol â rhagolwg y farn gyffredin, ac yn unol, yn fras, ag Adroddiad Chwyddiant Tachwedd Banc Lloegr. Mae'r data diwethaf ar y farchnad lafur am y tri mis hyd at fis Hydref 2018 yn dangos yr oedd y raddfa ddiweithdra'n aros yn 4.1%, ac yr oedd y raddfa gyflogaeth, sef 75.7%, yn hafal â'r amcangyfrif uchaf a gafwyd ers cychwyn gwneud amcangyfrifon cymaradwy ym 1971. Roedd graddfa tyfiant 3-mis cyflogau, ac eithrio bonysau, yn 3.3% ar gyfartaledd, wrth i gyflogau barhau i gynyddu'n gyson gan dynnu chwyddiant cyffredinol i fyny rhywfaint. Ar ôl addasu'r ffigyrau ar gyfer chwyddiant, tyfodd cyflogau real o 1.0%, lefel sy'n debyg o gael ond effaith gyfyngedig ar wariant defnyddwyr.

Roedd y cynnydd trimisol yn nhyfiant y Cynnyrch Mewnwladol Crynswth, i 0.6% yn nhrydydd chwarter y flwyddyn o gymharu â 0.4% yn yr ail chwarter, yn ganlyniad tywydd yr haf, a arweiniodd at gynnydd yn nhreuliant aelwydydd ac yng ngweithgarwch adeiladu. Mae tyfiant blynyddol Cynnyrch Mewnwladol Crynswth, sef 1.5%, yn parhau i fod yn is na'r tueddiad. Ers penderfyniad Banc Lloegr i godi Cyfradd y Banc i 0.75% ym mis Awst, ni wnaed unrhyw newid pellach i bolisi ariannol.

Mae Cronfa Ffederal yr Unol Daleithiau wedi parhau i dynhau polisi ariannol trwy gydol 2018, gan godi cyfraddau llog i rhwng 2.25% a 2.50% ym mis Tachwedd, a chan ostwng ei ragolwg am 2019 i ddau godiad pellach, yn lle'r tri a ragwelwyd gynt.

Cyhoeddwyd cadoediad dros dro yn y rhyfel fasnach rhwng yr Unol Daleithiau a Tsieina pan gytunodd arweinwyr y ddwy wlad i ohirio cyflwyno tollau newydd am 90 diwrnod er mwyn caniatáu i'r siarad barhau. Bydd y tollau a gyhoeddwyd yn barod yn weithredol o hyd. Mae'r sgil effeithiau'n parhau i effeithio ar dyfiant economaidd ac anwadalrwydd y marchnadoedd stoc.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae mis ar ôl cyn i gyfnod Erthygl 50 ddirwyn i ben ar 29 Mawrth 2019. Mae'r cytundeb a negodwyd gan Theresa May â'r Undeb Ewropeaidd, yr 'ateb wrth gefn' mewn perthynas â Gogledd Iwerddon, a'r gwrthwynebiad iddynt yn golygu bod ansicrwydd parhaus yn dal i bwyso ar werth sterling ac ar farchnadoedd y Deyrnas Unedig.

## 2.2 Rhagolygon Credyd

Mae nifer o bryderon wedi achosi penbleth i fuddsoddwyr: arafu economi Tsieina, tyndra cynyddol o ran masnachu rhwng yr Unol Daleithiau a Tsieina, pris olew sylweddol is, tyfiant is yn ardal yr Ewro, ac, wrth gwrs, yr ansicrwydd parhaus ynghylch Brecsit. O ran perfformiad asedau sy'n dwyn mwy o risg, ac yn arbennig ecwitïau, mis i'w anghofio oedd Rhagfyr. Roedd colled o 8.8% i'w gael o ddilyn y FTSE 100 (dangosydd da o deimlad corfforaethol byd-eang) gan gymryd bod difidendau'n cael eu hail-fuddsoddi; yn nhermau prisiau'n unig, cwympodd o ryw 13%. Ond roedd y gwahaniaeth yn yr elw ar fondiau corfforaethol yn cynyddu hefyd, gan adlewyrchu pryderon am amodau economaidd anos o'n blaenau a gallu corfforaethau i wasanaethu eu dyledion.

Roedd yr elw ar stociau gilt yn parhau i fod yn anwadal iawn yn ystod y cyfnod o ganlyniad i'r ansicrwydd economaidd a gwleidyddol parhaus yn y Deyrnas Unedig ac yn

Ewrop. Ar ôl codi i 1.30% ym mis Hydref, aeth stociau gilt yn ôl i'w statws fel hafan ddiogel yn Rhagfyr. Roedd yr elw ar stociau gilt 5 mlynedd wedi cwympo mor isel â 0.82%, ac roedd cwymp tebyg yn yr elw o stociau gilt 10 mlynedd ac 20 mlynedd yn yr un cyfnod, wrth iddynt gwympo o 1.59% i 1.06% ac o 2.05% i 1.62%. Roedd Cyfradd y Banc uwch yn parhau i wthio cyfraddau'r farchnad arian tuag at i fyny. Cyfartaleddau cyfraddau LIBID am 1 mis, 3 mis a 12 mis oedd 0.58%, 0.76% a 1.03% yn ystod yr un cyfnod.

### 2.3 Rhagolygon cyfraddau llog

Roedd prisiau Cyfnewidiadau Diffygdalu Credyd wedi codi'n araf yn ystod y cyfnod, gan adlewyrchu'r ansicrwydd parhaus ynghylch Brecsit, ond gan aros yn isel o safbwynt hanesyddol. Cododd y gwahaniaeth ar gyfer Natwest Markets plc, y banc buddsoddi, yn sylweddol i 129 pwynt sylfaenol, ond yn achos y banc adwerthol, National Westminster Bank plc, roedd yn weddol sefydlog ar oddeutu 44 pwynt sylfaenol. Yn achos prif fanciau eraill y Deyrnas Unedig, sydd heb eu hollti hyd yma i fanciau buddsoddi a banciau adwerthol o safbwynt Cyfnewidiadau Diffygdalu Credyd, roedd y gwahaniaeth rhwng 44 a 94 pwynt sylfaen ar ddiwedd y cyfnod.

Mae'r broses o hollti pedwar banc mawr y Deyrnas Unedig (Barclays, Bank of Scotland/Lloyds, HSBC and RBS/Natwest Bank plc) wedi'i chwblhau, ac mae'r broses o rannu eu busnes rhwng y banc adwerthol (wedi'i ddiogelu) a'r banc buddsoddi (heb ei ddiogelu) yn parhau, cyn i'r banciau ddechrau masnachu fel endidau gwahanol o 1 Ionawr 2019.

Mae Banc Lloegr wedi rhyddhau ei adroddiad diweddaraf ar brofi gwydnwch y banciau, oedd yn dangos bod yr holl endidau a brofwyd wedi pasio'r prawf ar ôl cymryd i ystyriaeth y lefelau cyfalaf a'r camau lliniarol y tybir y bydd y rheolwyr yn eu cymryd. Nid oedd Banc Lloegr wedi gosod gofyniad ar unrhyw fanc i godi rhagor o gyfalaf.

Chafwyd fawr ddim newid o ran credyd-raddio yn ystod y cyfnod. Roedd Moody's wedi newid ei asesiad o Gymdeithas Adeiladu Nationwide o 'sefydlog' i 'negyddol' gan eu bod yn credu y bydd y Gymdeithas yn dibynnu mwy ar ariannu trwy adneuon adwerthol yn y dyfodol, gan leihau'r adneuon cyfanwerthol a'r uwch ddyled sydd ar gael i'r fath raddau na chyfiawnheir yr uwchraddiad cyfredol o dri cham, dim ond uwchraddiad o ddau gam.

Bydd ein hymgynghorydd trysorlys, Arlingclose, yn parhau i ddarparu asesiadau penodol ar gyfer adneuon cyfanwerthol gan gynnwys tystysgrifau adneuo, yn hytrach nag asesiadau credyd cyffredinol. Mae uwch ddyled ansicredig heb eu ffafrio ac uwch fondiau yn dwyn lefel uwch o risg nag adneuon eraill y bydd y credydwyr yn gorfod achub y sefydliad, naill ai trwy delerau cytundebol, cyfraith gwlad neu hyblygrwydd y sefydliadau datrysiad. Bydd cyngor Arlingclose ar addasrwydd credyd yn parhau i gynnwys adneuon banc ansicredig a Thystysgrifau Adneuo, ond nid uwch fondiau ansicredig a ddarperir gan fanciau masnachol.

Atodir rhagolwg economaidd a rhagolwg cyfraddau llog mwy manwl a baratowyd gan Arlingclose yn ***Atodiad A***.

At ddibenion gosod y gyllideb, tybiwyd y caiff buddsoddiadau eu gwneud ar gyfradd llog o 0.75% ar gyfartaledd.

## 2.4 Y Cyd-destun Lleol

Ar 30 Medi 2018, roedd y Comisiynydd yn gyfredol yn dal £2.033m o fenthyca ac ar 28 Chwefror roedd yn dal £25.3m o fuddsoddiadau. Mae hyn wedi'i egluro mewn mwy o fanylder yn ***Atodiad E***.

Dangosir effaith y Rhaglen Gyfalaf ar y fantolen, a'r newidiadau fesul blwyddyn, isod.

### Gwariant Cyfalaf ac Ariannu ym mhob blwyddyn

| Gwariant Cyfalaf ac Ariannu | 2018/19 Diwygiedig | 2019/20 Amcan | 2020/21 Amcan | 2021/22 Amcan | 2022/23 Amcan | 2022/23 Amcan |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£k** | **£k** | **£k** | **£k** | **£k** | **£k** |
| Prosiectau Ystadau | 2,309 | 4,250 | 16,250 | 3,900 | 500 | 500 |
| Cerbydau / Cwch | 953 | 962 | 1,095 | 1,050 | 1,050 | 1,050 |
| TG a Chynlluniau Eraill | 3,217 | 3,405 | 2,424 | 2,160 | 1,690 | 1,440 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **6,479** | **8,617** | **19,769** | **7,110** | **3,240** | **2,990** |
| | | | | | | |
| Cyllid Grantiau | 318 | 325 | 325 | 325 | 325 | 325 |
| Benthyca | 0 | 4,250 | 16,250 | 3,900 | 0 | 0 |
| Cyfalaf Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu (NPAS) | 23 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Grantiau Cyfalaf | 324 | 243 | 183 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfraniad o Gyfrif Refeniw | 0 | 500 | 1,000 | 1,500 | 2,000 | 2,500 |
| Derbynebau Cyfalaf | 2,402 | 150 | 0 | 891 | 1,500 | 0 |
| Cyfalaf Wrth Gefn | 3,412 | 3,150 | 2,011 | 495 | -584 | 166 |
| **Cyfanswm Ariannu** | **6,479** | **8,617** | **19,769** | **7,110** | **3,240** | **2,990** |

### Gwariant Cyfalaf ac Ariannu cronnus (Mantolen)

| Gwariant Cyfalaf ac Ariannu | 2018/19 Diwygiedig | 2019/20 Amcan | 2020/21 Amcan | 2021/22 Amcan | 2022/23 Amcan | 2022/23 Amcan |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£k** | **£k** | **£k** | **£k** | **£k** | **£k** |
| **Prosiectau Ystadau** | 2,309 | 6,559 | 22,809 | 26,709 | 27,209 | 27,709 |
| **Cerbydau / Cwch** | 953 | 1,915 | 3,010 | 4,060 | 5,110 | 6,160 |
| **TG a Chynlluniau Eraill** | 3,217 | 6,622 | 9,046 | 11,206 | 12,896 | 14,336 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **6,479** | **15,096** | **34,865** | **41,975** | **45,215** | **48,205** |
| | | | | | | |
| **Cyllid Grantiau** | (318) | (643) | (968) | (1,293) | (1,618) | (1,943) |
| **Benthyca** | - | (4,250) | (20,500) | (24,400) | (24,400) | (24,400) |
| **Cyfalaf Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu (NPAS)** | (23) | (23) | (23) | (23) | (23) | (23) |
| **Grantiau Cyfalaf** | (324) | (567) | (750) | (750) | (750) | (750) |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfraniad o Gyfrif Refeniw** | - | (500) | (1,500) | (3,000) | (5,000) | (7,500) |
| **Derbynebau Cyfalaf** | (2,402) | (2,552) | (2,552) | (3,443) | (4,943) | (4,943) |
| **Cyfalaf Wrth Gefn** | (3,412) | (6,562) | (8,573) | (9,068) | (8,480) | (8,646) |
| **Cyfanswm Ariannu** | (6,479) | (15,097) | (34,866) | (41,977) | (45,214) | (48,205) |

* yn dangos dim ond y benthyciadau y mae'r CHTh wedi ymrwymo iddynt, gan eithrio ail-gyllido dewisol

Caiff yr angen gwaelodol i fenthyca at ddibenion cyfalaf ei fesur gan y Gofynion Cyllido Cyfalaf (CFR), tra bo cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a chyfalaf gweithio yn adnoddau gwaelodol sydd ar gael ar gyfer buddsoddi. Strategaeth gyfredol y Comisiynydd yw cynnal benthyca a buddsoddiadau o dan y lefelau gwaelodol, a elwir ambell waith yn fenthyca mewnol.

Mae gan y Comisiynydd CFR cynyddol oherwydd y Rhaglen Gyfalaf ac felly bydd angen benthyca hyd at £9.2m dros gyfnod y rhagolwg.

Mae Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol CIPFA yn argymell y dylai dyled yr CHTh fod yn is na'i ragolwg CFR uchaf dros y tair blynedd nesaf.

Mae premiymau ad-dalu ar ddyledion y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn afresymol ac felly mae'n fwy cost effeithiol i barhau i gario'r dyledion hyn yn hytrach na'u talu'n llawn yn gynnar. Yn ogystal, mae'r CHTh yn derbyn cyfraniad grant at gostau cyllido dyledion cyn 1990 ar 51% o gostau'r taliadau llog enwol sydd ar ôl ac isafswm ad-daliad refeniw.

## 3.Strategaeth Fenthyca

Fel y soniwyd uchod, mae'r CHTh ar hyn o bryd yn dal £2.033 miliwn o fenthyciadau, sef gostyngiad o £0.18 miliwn o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf blynyddoedd blaenorol.

O ystyried y toriadau sylweddol i wariant cyhoeddus ac yn benodol i gyllid llywodraeth leol, mae strategaeth fenthyca'r CHTh yn parhau i fynd i'r afael ag ystyriaeth allweddol fforddiadwyedd heb gyfaddawdu sefydlogrwydd tymor hirach y portffolio dyledion. Gyda chyfraddau llog tymor byr ar hyn o bryd llawer yn is na'r cyfraddau tymor hir, mae'n debygol o fod yn fwy cost effeithiol yn y tymor byr i ddefnyddio naill ai adnoddau mewnol neu gael benthyciadau tymor byr yn lle.

Drwy wneud hynny mae'r CHTh yn gallu lleihau costau benthyca net (er gwaethaf incwm buddsoddi rhagweladwy) a lleihau'r risg cyffredinol i'r trysorlys. Caiff manteision benthyca mewnol / tymor byr eu monitro'n rheolaidd yn erbyn y potensial ar gyfer mynd i gostau ychwanegol drwy ohirio benthyca i flynyddoedd y dyfodol pan ragwelir y bydd cyfraddau llog tymor hir yn codi ychydig. Bydd Arlingclose yn cynorthwyo'r CHTh gyda'r 'gost cludo' hon a dadansoddiad adennill costau. Gallai ei ganlyniad bennu a yw'r CHTh yn benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau sefydlog tymor hir yn 2019/20 gyda golwg ar gadw

costau llog yn isel yn y dyfodol, hyd yn oed os yw hyn yn achosi cost ychwanegol yn y tymor byr.

Fel arall, gallai'r CHTh drefnu benthyciadau sy'n cychwyn yn hwyrach yn ystod 2019/20, lle byddai'r gyfradd llog wedi'i gosod o flaen llaw, gyda'r arian yn cael ei dderbyn mewn blynyddoedd diweddarach. Byddai hyn yn galluogi cyflawni sicrwydd costau heb ddioddef y gost cludo yn y cyfnod cyfamserol.

Yn ogystal, gall y CHTh gymryd benthyciadau tymor byr i gwrdd â diffygion llif arian annisgwyl.

**Ffynonellau**

Y ffynonellau sydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer benthyciadau tymor hir a thymor byr yw:

- Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ac unrhyw gyrff olynol
- unrhyw sefydliad a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddi (gweler isod)
- unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladu arall sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu yn y DU
- Cronfeydd pensiwn sectorau cyhoeddus a phreifat y DU (ac eithrio Cronfa Bensiwn Dyfed-Powys)
- Buddsoddwyr bondiau yn y farchnad gyfalaf
- Cwmnïau pwrpas arbennig a grëwyd i alluogi dyroddiad bondiau awdurdod lleol

Yn ogystal, gellir codi cyllid cyfalaf drwy'r dulliau canlynol nad ydynt yn fenthyciadau, ond y gellir eu cyfrif fel rhwymedigaethau dyledion eraill:

- prydlesi gweithredu a chyllid
- hurbwrcasu
- gwerthu ac adlesu

Yn y gorffennol gwnaed pob benthyciad tymor hir drwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus ond mae'r CHTh yn parhau i ymchwilio i ffynonellau cyllid eraill, megis benthyciadau awdurdodau lleol a benthyciadau banc a allai fod â chyfraddau mwy ffafriol.

Ailamseru dyledion

Mae'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn caniatáu i'r CHTh ad-dalu benthyciadau cyn iddynt aeddfedu a naill ai dalu premiwm neu dderbyn gostyngiad yn ôl fformiwla sefydlog yn seiliedig ar gyfraddau llog cyfredol. Efallai y bydd benthycwyr eraill hefyd yn barod i drafod telerau ad-dalu cynnar. Gall y CHTh fanteisio ar hyn a newid rhai benthyciadau am fenthyciadau newydd, neu

ad-dalu benthyciadau heb amnewid, lle disgwylir i hyn arwain at arbediad cost cyffredinol neu leihad o ran risg.

## 3. Strategaeth Fuddsoddi

Mae gan y CHTh gronfeydd sylweddol wedi eu buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbynnir cyn gwariant a'r balansau a'r cronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae balans buddsoddiadau'r CHTh wedi amrywio rhwng £16 a £35 miliwn. Oherwydd defnyddio cronfeydd i gyllido'r rhaglen gyfalaf disgwylir i'r balansau buddsoddi leihau yn ystod 2019/20.

**Amcanion**: Yn unol â Chod CIPFA a Chanllawiau LlC mae'n ofynnol i'r CHTh fuddsoddi ei gronfeydd yn ddarbodus, ac i ystyried diogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau o flaen ceisio cael y gyfradd uchaf o enillion, neu log. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw taro cydbwysedd priodol rhwng risg ac enillion, lleihau'r risg o wneud colledion yn sgil diffygdaliadau a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi sy'n anaddas o isel. Lle disgwylir i falansau gael eu buddsoddi am fwy nag un flwyddyn, bydd yr Awdurdod yn ceisio cyflawni cyfanswm o enillion sydd yn cyfateb i'r gyfradd chwyddiant ar y pryd neu'n uwch, er mwyn cynnal pŵer gwario'r swm a fuddsoddwyd.

**Cyfraddau Llog Negyddol:** Os yw'r DU yn mynd i ddirwasgiad yn ystod 2019/20, mae siawns isel y gallai Banc Lloegr osod ei Gyfradd Banc ar sero neu'n is, sy'n debygol o fwydo i gyfraddau llog negyddol ar bob opsiwn buddsoddi risg isel, tymor byr. Mae'r sefyllfa hon eisoes yn bodoli mewn nifer o wledydd eraill Ewrop. Os digwydd hyn, caiff sicrwydd ei fesur yn ôl derbyn y swm y cytunwyd arno'n gontractaidd ar adeg aeddfedu, er y gallai hyn fod yn llai na'r swm a fuddsoddwyd yn wreiddiol.

**Strategaeth:** O ystyried y risg cynyddol a'r enillion isel parhaol sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau banc tymor byr ansicredig, mae'r CHTh yn bwriadu arallgyfeirio ymhellach i ddosbarthiadau o asedau sy'n fwy diogel ac/neu'n cynnig enillion uwch yn ystod 2019/20. Bydd yr arallgyfeirio hwn yn cynrychioli parhad y strategaeth newydd a fabwysiadwyd yn 2018/19.

### 4.1 Gwrthbartïon Cymeradwy

Gall y CHTh fuddsoddi'r arian sydd ganddo dros ben gydag unrhyw un o'r mathau o wrthbartïon a restrir yn nhabl 2 isod yn amodol ar y terfynau arian parod (fesul gwrthbarti) a'r terfynau amser a ddangosir.

Ni fydd cyfanswm y buddsoddiadau sicredig ac ansicredig mewn unrhyw fanc yn fwy na'r terfynau arian parod ar gyfer buddsoddiadau sicredig.

Bydd terfynau gwrthbartïon yn cael eu hadolygu'n chwarterol a'u diwygio os bydd angen yn ddibynnol ar falansau buddsoddiadau.

**Tabl 2: Gwrthbartïon Buddsoddi Cymeradwy a'u Terfynau**

| Cyfradd Credyd | Banciau/ Cymd. Adeiladu Ansicredig | Banciau Sicredig | Llywodraeth | Cwmnïau Corfforaethol | Darparwyr Cofrestredig |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth y DU** | amh | amh | £ anghyfyngedig 50 mlynedd | amh | amh |
| **AAA** | £2m 5 mlynedd | £3m 20 mlynedd | £3m 50 mlynedd | £1m 20 mlynedd | £1m 20 mlynedd |
| **AA+** | £2m 5 mlynedd | £3m 10 mlynedd | £3m 25 mlynedd | £1m 10 mlynedd | £1m 10 mlynedd |
| **AA** | £2m 4 mlynedd | £3m 5 mlynedd | £3m 15 mlynedd | £1m 5 mlynedd | £1.5m 10 mlynedd |
| **AA-** | £2m 3 mlynedd | £3m 4 mlynedd | £2m 10 mlynedd | £1m 4 mlynedd | £1.5m 10 mlynedd |
| **A+** | £2m 2 mlynedd | £3m 3 mlynedd | £1m 5 mlynedd | £0.5m 3 mlynedd | £1.0m 5 mlynedd |
| **A** | £2m 13 mis | £3m 2 mlynedd | £1m 5 mlynedd | £0.5m 2 mlynedd | £1.0m 5 mlynedd |
| **A-** | £2m 6 mis | £3m 13 mis | £1m 5 mlynedd | £0.5m 13 mis | £1.0m 5 mlynedd |
| **Dim** | £1m 6 mis | amh | £2m 5 mlynedd | Dim | Dim |
| **Cronfeydd cronedig (dim mwy na £3m ym mhob cronfa) a dim mwy na 50% o gyfanswm y buddsoddiadau** | | | | | |

Offeryn buddsoddi amgen sydd ar gael yw Cytundebau Adbrynu o Chwith. Mae ein Hymgynghorwyr Trysorlys wedi datgan bod y rhain yn cael eu dosbarthu dan gategori “banciau sicredig”.

Ceir diffiniadau o'r derminoleg uchod yn Atodiad C.

## 4.2 Asesiad Risg a Chyfraddau Credyd

Bydd ymgynghorwyr trysorlys y CHTh yn sicrhau ac yn monitro statws credyd, a byddant hefyd yn tynnu sylw at unrhyw newidiadau wrth iddynt ddigwydd. Os bydd statws credyd endid yn cael ei lawr-raddio i lefel lle y mae'n methu â chwrdd â'r meini prawf cymeradwy ar gyfer buddsoddi, yna:

- ni wneir unrhyw fuddsoddiadau newydd,
- os oes modd galw buddsoddiadau cyfredol yn ôl neu eu gwerthu heb gost, fe wneir hynny, a
- rhoddir ystyriaeth fanwl i alw yn ôl neu werthu unrhyw fuddsoddiadau cyfredol eraill gyda'r gwrthbarti dan sylw.

Os bydd asiantaeth graddio statws credyd yn cyhoeddi bod statws credyd yn cael ei adolygu gyda golwg ar ei lawr-raddio (a elwir hefyd yn adolygiad statws negyddol neu adolygiad credyd negyddol), ac y gallai syrthio o dan y meini prawf cymeradwy ar gyfer graddio, dim ond buddsoddiadau y gellir eu cael yn ôl [ar y diwrnod gwaith nesaf] a wneir gyda'r sefydliad hwnnw hyd nes bydd canlyniad yr adolygiad yn cael ei gyhoeddi. Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol ar gyfer rhagolygon negyddol sy'n awgrymu tuedd tymor hir yn hytrach na newid statws sydd ar fin digwydd.

**4.3 Gwybodaeth arall am Ddiogelwch Buddsoddiadau**: Mae'r CHTh yn deall bod statws credyd yn rhagfynegydd da, ond nid perffaith, o ddiffygdalu mewn perthynas â buddsoddiad. Felly rhoddir ystyriaeth fanwl i unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael am ansawdd credyd y sefydliadau y mae'n buddsoddi ynddynt, gan gynnwys prisiau cyfnewid yn achos credyd diffygiol, datganiadau ariannol, gwybodaeth am gefnogaethbposib gan y llywodraeth ac erthyglau yn y wasg ariannol safonol. Ni wneir buddsoddiadau gyda sefydliad os oes amheuon sylweddol ynghylch ansawdd ei gredyd, hyd yn oed os yw'n cwrdd â'r meini prawf statws credyd.

Pan fydd dirywiad yng nghyflwr y farchnad ariannol yn effeithio ar deilyngdod credyd sefydliadau, fel y digwyddodd yn 2008 a 2011, ni fydd hyn fel arfer yn cael ei adlewyrchu yn eu statws credyd, ond gellir ei weld mewn mesurau marchnad eraill. Yn yr amgylchiadau hynny, bydd yr Awdurdod yn cyfyngu ei fuddsoddiadau i'r sefydliadau hynny sydd ag ansawdd credyd uwch ac yn gostwng mwyafswm cyfnod ei fuddsoddiadau er mwyn cynnal safon ddigonol o sicrwydd. Bydd maint y cyfyngiadau hyn yn adlewyrchu amodau'r farchnad ariannol ar y pryd. Os bydd y cyfyngiadau hyn yn golygu nad oes digon o sefydliadau masnachol gydag ansawdd credyd uchel ar gael ar gyfer buddsoddi arian y CHTh, yna bydd y gweddill yn cael ei adneuo gyda Llywodraeth y DU drwy'r Swyddfa Rheoli Dyledion, neu'n cael ei fuddsoddi mewn biliau trysorlys y llywodraeth er enghraifft, neu gydag awdurdodau lleol eraill. Bydd hyn yn achosi gostyngiad yn y lefel o incwm a geir o'r buddsoddiad, ond yn diogelu'r swm a fuddsoddwyd.

**4.4 Buddsoddiadau Penodedig**

Mae Canllawiau LlC yn diffinio buddsoddiadau penodedig fel rhai:

- a fynegir mewn punnoedd sterling,
- sydd i fod cael eu had-dalu o fewn 12 mis o'r trefniant,
- na ddiffiniwyd fel gwariant cyfalaf gan ddeddfwriaeth, ac
- a fuddsoddwyd gydag un o'r canlynol:
    - Llywodraeth y DU,
    - Awdurdod lleol, cyngor plwyf neu gyngor cymuned yn y DU, neu
    - corff neu gynllun buddsoddi ag "ansawdd credyd uchel".

Mae Dyfed Powys yn diffinio sefydliad â gwarantau “ansawdd credyd uchel” fel rhai sydd â statws credyd A- neu uwch sydd â’u domisil yn y DU neu wlad dramor gyda chyfradd sofran o AA+ neu uwch.

### 4.5 Buddsoddiadau Amhenodedig

Ystyrir unrhyw fuddsoddiad nad yw’n cwrdd â’r diffiniad ar gyfer buddsoddiad penodedig fel un amhenodedig. Nid yw Dyfed Powys yn bwriadu gwneud unrhyw fuddsoddiad a fynegir mewn arian gwlad dramor. Bydd buddsoddiadau amhenodedig felly yn cynnwys buddsoddiadau tymor hir, hynny yw, rhai sydd i fod i aeddfedu mewn 12 mis neu fwy o ddyddiad y trefniant. Dangosir y terfynau ar fuddsoddiadau amhenodedig yn nhabl 3 isod.

**Tabl 3: Terfynau Buddsoddiadau Amhenodedig**

| | (Symiau a fuddsoddir yn gyfredol) | Terfyn arian parod (Arfaethedig 2019/20) |
|---|---|---|
| **Cyfanswm buddsoddiadau tymor hir** | £6.3m | £10m |
| **Cyfanswm cyfranddaliadau mewn Cronfeydd Marchnad Arian** | - | £15m |
| **Cyfanswm cyfranddaliadau mewn cronfeydd cyfun eraill** | - | £3m |
| **Cyfanswm buddsoddiadau heb statws credyd neu a raddiwyd yn is na [A-] (ar wahan i Lywodraeth y DU ac Awdurdodau Lleol y DU)** | - | £4m |
| **Cyfanswm buddsoddiadau gyda sefydliadau â domisil mewn gwledydd tramor a raddiwyd yn is na [AA+]** | - | £4m |
| **Cyfanswm arian i’w fuddsoddi mewn buddsoddiadau amhenodedig** | - | £30m |

### 4.6 Terfynau Buddsoddi

Rhagwelir y bydd cronfeydd refeniw wrth gefn y CHTh fydd ar gael ar y 31 Mawrth 2019 i dalu colledion buddsoddi yn £4.032 miliwn. Y mwyafswm fydd yn cael ei fenthyca i unrhyw sefydliad unigol (ac eithrio Llywodraeth y DU) fydd £3 miliwn. Bydd grŵp o fanciau dan yr un berchnogaeth yn cael eu trin fel un sefydliad o ran y terfynau hyn. Rhoddir terfynau hefyd ar reolwyr cronfeydd, buddsoddiadau mewn cyfrifon enwebeion broceriaid, gwledydd tramor a sectorau diwydiant fel y gwelir isod. Nid yw buddsoddiadau mewn banciau datblygu amlochrog yn cyfrif yn erbyn y terfyn ar gyfer unrhyw wlad dramor unigol, gan fod y risg wedi ei rannu ar draws nifer o wledydd.

**Tabl 4: Terfynau Buddsoddi**

| | Terfyn Arian Parod |
|---|---|
| **Unrhyw sefydliad unigol, ac eithrio Llywodraeth Ganolog y DU** | £3m yr un |
| **Llywodraeth Ganolog y DU** | Dim terfyn |
| **Unrhyw grŵp o sefydliadau dan yr un berchnogaeth** | £3m y grŵp |
| **Offerynnau cyfnewidiadwy mewn cyfrif enwebai brocer** | £25m y brocer |
| **Gwledydd tramor** | £4m y wlad |
| **Darparwyr Cofrestredig** | Cyfanswm o £5 miliwn |
| **Buddsoddiadau ansicredig gyda Chymdeithasau Adeiladu** | Cyfanswm o £4 miliwn |

## 4.7 Rheoli Hylifedd

Mae Dyfed Powys yn paratoi rhagamcan llif arian blynyddol sy'n amcangyfrif y sefyllfa llif arian pob mis. Defnyddir hwn i benderfynu'r cyfnod hiraf y gellir ymrwymo cronfeydd yn ddarbodus. Caiff y rhagamcan hwn ei lunio ar sail ddarbodus, gyda derbynebion wedi eu hamcangyfrif yn rhy isel a thaliadau'n cael eu hamcangyfrif yn rhy uchel gan isafu'r risg o orfod benthyca ar delerau anffafriol er mwyn cwrdd â'i ymrwymiadau ariannol.

Gosodir terfynau ar fuddsoddiadau tymor hir drwy gyfeirio at gynllun ariannol a rhagolwg llif arian tymor canolig y CHTh.

Nod Dyfed Powys yw cael isafswm o £2 miliwn mewn cyfrifon adalw at ddibenion hylifedd tymor byr.

Gwneir buddsoddiadau mewn biliau Trysorlys a Thystysgrifau Adnau hefyd sy'n hylifol ac y gellir eu gwerthu yn y farchnad eilaidd os oes angen arian parod ar frys.

Rhaid i bob buddsoddiad dros 13 mis gael ei gymeradwyo ymlaen llaw gan Brif Swyddog Ariannol (PSA) y CHTh.

## 4.8 Buddsoddiadau ar wahân i'r Trysorlys

Ar hyn o bryd nid oes gan y CHTh fuddsoddiadau ar wahân i'r Trysorlys.

## 4. Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys

Mae Dyfed Powys yn mesur ac yn rheoli ei agoredrwydd i risgiau rheoli trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol.

### 5.1 Diogelwch

Mae'r CHTh wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei agoredrwydd i risgiau credyd drwy fonitro statws credyd / *sgôr credyd* cyfartalog ei bortffolio buddsoddiadau, wedi'i bwysoli yn ôl gwerth. Caiff hyn ei gyfrifo drwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2, ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, wedi'i bwysoli gan faint pob buddsoddiad. Neilltuir sgôr ar gyfer buddsoddiadau nad ydynt wedi eu graddio yn seiliedig ar eu risg canfyddedig.

| | Targed |
|---|---|
| **Statws credyd / sgôr cyfartalog portffolio** | A / 6 |

### 5.2 Hylifedd

Mae'r CHTh wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei agoredrwydd i risgiau hylifedd drwy fonitro faint o arian parod sydd ar gael i gwrdd â thaliadau annisgwyl o fewn pob cyfnod treigl o dri mis, heb fenthyca ychwanegol.

| | Targed |
|---|---|
| **Cyfanswm arian parod ar gael o fewn 3 mis** | £4 miliwn |

## 5.3 Agoredrwydd i Gyfraddau Llog

Nod y dangosydd hwn yw rheoli agoredrwydd y CHTh i risg cyfraddau llog. Y terfynau uchaf ar agoredrwydd i gyfraddau llog sefydlog a newidiol, a fynegir fel cyfran o'r prif swm net a fenthycwyd. (Mae buddsoddiadau yn cyfrif fel benthyca negyddol):

| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m |
| **Terfyn uchaf ar agoredrwydd i gyfraddau llog sefydlog** | 0 | 4.3 | 16.3 |
| **Terfyn uchaf ar agoredrwydd i gyfraddau llog newidiol** | 0 | 0 | 0 |

Buddsoddiadau a benthyciadau cyfradd sefydlog yw'r rheiny lle mae'r gyfradd llog yn cael ei gosod ar yr un lefel am gyfnod sydd o leiaf 12 mis, wedi ei fesur o ddechrau'r flwyddyn ariannol neu ddyddiad y trafodyn os yn hwyrach. Mae'r holl offerynnau eraill yn cael eu categoreiddio fel rhai â chyfradd newidiol.

## 5.4 Strwythur Aeddfedu Benthyciadau

Nod y dangosydd hwn yw rheoli agoredrwydd y CHTh i risg ail-ariannu. Y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedu benthyciadau cyfradd sefydlog fydd:

| | Uchaf | Isaf |
|---|---|---|
| **Dan 12 mis** | 20% | 0% |
| **12 mis ac o fewn 24 mis** | 72% | 0% |
| **24 mis ac o fewn 5 mlynedd** | 75% | 0% |
| **5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd** | 100% | 0% |
| **10 mlynedd a mwy** | 100% | 0% |

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Dyddiad aeddfedu benthyciad yw'r dyddiad cynharaf y gall y sawl sydd wedi rhoi'r benthyciad fynnu ei fod yn cael ei ad-dalu.

Gosodwyd y terfynau hyn mor eang â phosibl i sicrhau nad yw cyfleoedd i ailstrwythuro dyled yn cael eu colli.

### 5.5 Prif symiau a fuddsoddwyd am Gyfnod Hirach na 364 diwrnod

Diben y dangosydd hwn yw rheoli agoredrwydd y CHTh i'r risg o gael colledion drwy geisio ad-daliad cynnar ar ei fuddsoddiadau. Y terfynau ar gyfanswm y prif swm tymor hir a fuddsoddir i aeddfedu'n derfynol y tu hwnt i ddiwedd y cyfnod fydd:

| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|
| **Terfyn ar brif swm a fuddsoddir y tu hwnt i ddiwedd blwyddyn** | £10m | £8m | £6m |

## 6. Eitemau Eraill

Mae nifer o eitemau ychwanegol y mae CIPFA neu Lywodraeth Cymru yn mynnu bod y CHTh yn eu cynnwys yn ei Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

### 6.1 Polisi ar Ddefnydd Deilliadau Ariannol

Yn absenoldeb unrhyw bŵer cyfreithiol i wneud hynny, ni fydd y CHTh yn defnyddio deilliadau ariannol annibynnol (megis cyfnewidiadau, rhagolygon, blaendrafodion ac opsiynau). Gellir defnyddio deilliadau wedi eu mewnblannu mewn benthyciadau a buddsoddiadau, gan gynnwys cronfeydd cyfun a thrafodion tua'r dyfodol, a bydd y risgiau y maent yn eu cyflwyno yn cael eu rheoli yn unol â'r strategaeth gyffredinol ar gyfer rheoli risg trysorlys.

### 6.2 Hyfforddiant Buddsoddi

Mae Cod Ymarfer CIPFA yn mynnu bod y Prif Swyddog Ariannol yn sicrhau bod pob aelod o staff sy'n gysylltiedig â chyfrifoldebau rheoli'r trysorlys, gan gynnwys archwilio'r swyddogaeth rheoli trysorlys yn derbyn hyfforddiant priodol ac yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llwyr.

Mae staff sy'n ymgymryd â dyletswyddau rheoli Trysorlys yn mynd ar gyrsiau hyfforddi priodol a ddarperir gan Arlingclose ac yn mynychu cyfarfodydd strategaeth chwarterol. Mae'r staff hefyd yn mynd ar gyrsiau hyfforddi perthnasol eraill.

### 6.3 Ymgynghorwyr Buddsoddi

Mae'r CHTh wedi penodi Arlingclose Terfyned fel ymgynghorwyr rheoli trysorlys ac mae'n derbyn cyngor penodol ynghylch materion buddsoddi, dyledion a chyllid cyfalaf ganddynt.

### 6.4 Buddsoddi Arian a Fenthycwyd cyn bod ei Angen

Gall y CHTh, o bryd i'w gilydd, fenthyca arian cyn bod angen amdano, pan ddisgwylir y bydd hyn yn rhoi'r gwerth am arian gorau yn y tymor hir. Gan y bydd y symiau a fenthycir yn cael eu buddsoddi hyd nes y cânt eu gwario, mae'r CHTh yn ymwybodol y bydd yn agored i'r risg o golli'r symiau a fenthycwyd, a'r

risg y bydd cyfraddau llog ar fuddsoddiadau a benthyciadau yn newid yn y cyfamser. Caiff y risgiau hyn eu rheoli fel rhan o drefniadau rheoli risgiau trysorlys cyffredinol y CHTh.

Ni fydd y cyfanswm a fenthycir yn uwch na'r cyfyngiad benthyca awdurdodedig o £29.5 miliwn. Disgwylir mai dwy flynedd fydd y cyfnod mwyaf rhwng benthyca a gwario'r arian, serch hyn, nid oes rhaid i Dyfed Powys gysylltu benthyciadau penodol gydag eitemau gwariant penodol.

### 6.5 Goblygiadau Ariannol

Y gyllideb ar gyfer yr incwm buddsoddi yn 2019/20 yw £0.175 miliwn, yn seiliedig ar bortffolio buddsoddi cyfartalog o £ 23.3 miliwn ar gyfradd llog o 0.75%. Os bydd lefelau gwirioneddol y buddsoddiadau a'r cyfraddau llog yn wahanol i'r rhagolygon, yna bydd gwahaniaeth cyfatebol yn y perfformiad yn erbyn y gyllideb.

### 6.6 Opsiynau Eraill a Ystyriwyd

Nid yw Canllawiau LlC na Chod CIPFA yn pennu unrhyw strategaeth rheoli'r trysorlys penodol i'w mabwysiadu gan awdurdodau lleol. Mae Prif Swyddog Ariannol y CHTh yn credu bod y strategaeth uchod yn cynnig cydbwysedd addas rhwng rheoli risgiau a chost-effeithiolrwydd. Rhestrir isod rai strategaethau eraill, ynghyd â'u goblygiadau ariannol a'u goblygiadau rheoli risgiau.

| Dewis arall | Effaith ar incwm a gwariant | Effaith ar reoli risg |
|---|---|---|
| **Buddsoddi mewn ystod fwy cyfyng o wrthbartïon ac/neu am gyfnod byrrach** | Bydd incwm o'r llog yn is | Llai o siawns o golledion o ganlyniad i ddiffygdalu'n ymwneud â chredyd, er gallai unrhyw golledion felly fod yn fwy |
| **Buddsoddi mewn ystod ehangach o wrthbartïon a/neu am gyfnodau hirach** | Bydd incwm o'r llog yn uwch | Mwy o risg o golledion o ganlyniad i ddiffygdalu'n ymwneud â chredyd, ond gallai unrhyw golledion felly fod yn llai |
| **Benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau llog sefydlog tymor hir** | Bydd costau llog ar ddyledion yn codi; mae'n annhebygol y gellid gwrthbwyso hyn gydag incwm buddsoddi uwch | Balans buddsoddi uwch yn arwain at fwy o effaith yn achos diffygdalu; fodd bynnag gallai costau llog tymor hir fod yn fwy sicr |
| **Benthyciadau byrdymor / cyfradd newidiol yn lle rhai â chyfraddau sefydlog tymor hir** | Bydd costau llog dyledion yn is i ddechrau | Bydd y cynnydd yn y costau llog ar ddyledion yn cael ei wrthbwyso i raddau gan y cynnydd yn yr incwm buddsoddi yn y tymor canolig, ond gall y costau tymor hir fod yn llai sicr |
| **Gostwng lefel y benthyciadau** | Arbedion ar log dyledion yn debygol o fod yn fwy na'r incwm buddsoddi a gollir | Balans buddsoddi is yn arwain at lai o effaith yn achos diffygdalu; fodd bynnag gallai'r costau llog tymor hir fod yn llai sicr |

## Atodiad A - Rhagolwg Economaidd a Chyfradd Llog Arlingclose Chwefror 2018

### Tybiaethau gwaelodol:

- Mae'r rhagolygon canolog ar gyfer cyfraddau llog yn dibynnu ar y rhagdybiaeth y bydd cyfnod trosiannol yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd.

- Mae gan y Pwyllgor Polisi Ariannol duedd tuag at dynhau polisi ariannol, ond mae'n gyndyn i orbwysleisio'r disgwyl y bydd cyfraddau llog yn codi. Rydym o'r farn bod aelodau'r Pwyllgor Polisi Ariannol yn credu: 1) y bydd marchnad lafur dynn yn ysgogi pwysau chwyddiant yn y dyfodol, 2) bod cyfraddau llog isel iawn yn creu problemau economaidd eraill, a 3) y bydd codi Cyfradd y Banc yn arf fwy effeithiol o weithredu ei bolisi os gwireddir risgiau negyddol i dyfiant.

- Mae ein rhagamcangyfrifon, a'r cynnydd ym maint y risgiau gwleidyddol ac economaidd sy'n wynebu economi'r Deyrnas Unedig, yn golygu parhau i bwysleisio'r risgiau negyddol yn y rhagolygon, er gwaethaf y posibiliad y bydd tyfiant y flwyddyn nesaf ychydig yn gryfach wrth i fuddsoddi gan fusnesau gynyddu eto os caiff y cytundeb i adael yr Undeb Ewropeaidd ei gymeradwyo. Mae'r posibiliad o ganlyniadau economaidd gwael wedi cynyddu yn sgil adwaith negyddol Aelodau Seneddol i'r Cytundeb Ymadael. Rydym yn disgwyl y bydd Banc Lloegr yn cadw cyfraddau llog ar eu lefel gyfredol - neu eu gostwng - os gwireddir y risgiau ynghylch Brecsit.

- Mae amgylchedd economaidd y Deyrnas Unedig yn gymharol feddal, er gwaethaf y data ymddangosiadol gryf am y farchnad lafur. Adferwyd lefel y tyfiant yn y Cynnyrch Mewnwladol Crynswth rhywfaint yn ystod y chwarterau yng nghanol 2018, ond mae data mwy diweddar yn awgrymu bod yr economi wedi arafu'n sylweddol yn y chwarter olaf. Rydym o'r farn bod y rhagolygon i economi'r Deyrnas Unedig yn heriol o hyd wrth i'r wlad adael yr Undeb Ewropeaidd ac wrth i dyfiant yn ardal yr Ewro wanhau.

- Mae pwysau ar gostau'n lleihau, ond rhagwelir y bydd chwyddiant yn aros yn uwch na tharged y banc, sef 2%, am y rhan fwyaf o gyfnod y rhagolwg. Mae prisiau olew llai wedi lleihau pwysau chwyddiant, ond mae'r farchnad lafur dynn a'r cwymp yng ngwerth y bunt yn golygu y gall chwyddiant aros yn uwch na'r targed am yn hwy na'r disgwyl.

- Mae tyfiant economaidd ledled y byd yn arafu. Er gwaethaf y tyfiant is, mae Banc Canolog Ewrop yn paratoi'r marchnadoedd am ddirwyn Lleddfu Meintiol i ben, am amseru'r codiad cyntaf yng nghyfraddau llog (2019), ac am gyfeiriad cyfraddau llog wedyn. Mae data mwy diweddar o'r Unol Daleithiau wedi rhoi pwysau ar y Gronfa Ffederal i arafu'r tynhau ariannol - fodd bynnag, bydd y codiadau sydd eisoes wedi digwydd a'r disgwyliadau uwch yn arafu tyfiant economaidd.

- Mae gweithredoedd y banciau canolog a'r risgiau geo-wleidyddol wedi achosi, a byddant yn parhau i achosi, anwadalrwydd sylweddol yn y marchnadoedd ariannol, gan gynnwys y marchnadoedd bondiau.

### Rhagolwg:

- Mae'r Pwyllgor Polisi Ariannol yn dal i hybu'r disgwyliadau y bydd cyfraddau llog yn codi'n araf dros gyfnod y rhagolwg, ond mae digwyddiadau diweddar ynghylch Brecsit wedi lleihau'r disgwyliadau o ran codiad yn y gyfradd llog. Mae'n rhagolwg canolog yn

tybio y bydd Cyfradd y Banc yn codi dwywaith yn 2019, ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae pwysau'r risgiau ar yr ochr negyddol.

- Mae’r elw ar giltiau wedi aros yn isel. Rydym yn disgwyl rhywfaint o symudiad tuag at i fyny o'r lefel gyfredol yn seiliedig ar ein rhagolwg canolog y bydd y Deyrnas Unedig yn mynd i gyfnod trosiannol ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd ar 29 Mawrth. Fodd bynnag, mae ein rhagdybiaeth y bydd yr economi’n wan gydag anwadalrwydd yn codi o ddigwyddiadau economaidd a gwleidyddol yn parhau i gynnig cyfleoedd benthyca.

**Atodiad B – Sefyllfa Portffolio Buddsoddi a Dyled**

| | 30/09/2018 **Portffolio gwirioneddol £m** | 30/09/2018 **Cyfradd cyfartalog %** |
|---|---|---|
| **Benthycau Allanol:** Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus – Cyfradd Sefydlog | 2.033 | 9.31 |
| **Cyfanswm Gros Dyled Allanol** | **2.033** | **9.31** |
| | 28/02/2019 **Portffolio gwirioneddol £m** | 28/02/2019 **Cyfradd cyfartalog %** |
| **Buddsoddiadau:** *Rheolir yn fewnol* | | |
| Buddsoddiadau tymor byr | 19.003 | 0.78 |
| Buddsoddiadau tymor hir | 6.336 | 1.06 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | 25.339 | 0.87 |

Noder bod yr holl ddyled yn dymor hir ac yn ddyddiedig cyn 1990. Caiff balansau eu cyfrif ar sail dwywaith y flwyddyn (30 Medi a 31 Mawrth).

**Atodiad C – Diffiniadau Buddsoddi**

**Cyfradd Credyd:** Gosodir terfynau buddsoddi drwy gyfeirio at y gyfradd credyd tymor hir isaf a gyhoeddir gan Fitch, Moody's neu Standard & Poor's. Lle bo ar gael, defnyddir y gyfradd credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu'r dosbarth buddsoddi, neu fel arall defnyddir cyfradd credyd y gwrthbarti. Fodd bynnag, nid yw penderfyniadau buddsoddi byth yn cael eu gwneud ar sail cyfraddau credyd yn unig, a chaiff pob ffactor perthnasol arall gan gynnwys cyngor allanol eu hystyried.

**Banciau Ansicredig:** Cyfrifon, adneuon, tystysgrifau adneuon a bondiau ansicredig uwch gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, ac eithrio banciau datblygu amlochrog. Mae'r buddsoddiadau hyn yn agored i'r risg sy'n gysylltiedig â cholledion credyd yn sgil proses achub ('bail-in') os bydd y rheolydd yn penderfynu bod y banc yn methu neu'n debygol o fethu.

**Banciau Sicredig:** Bondiau gwarchodedig, cytundebau adbrynu o chwith, a threfniadau cyfochrog eraill gyda banciau a chymdeithasau adeiladu. Mae'r buddsoddiadau hyn wedi eu sicrhau ar asedau'r banc, sy'n cyfyngu'r colledion posib petai methdaliad, er bod hynny'n annhebygol, ac yn golygu eu bod wedi eu heithrio rhag proses achub ('bail-in'). Lle nad oes statws credyd penodol ar gyfer y buddsoddiad, ond bod statws credyd ar gyfer y warant gyfochrog y mae'r buddsoddiad wedi ei sicrhau arni, defnyddir yr uchaf o statws credyd y gwarantau cyfochrog a statws credyd y gwrthbarti i benderfynu'r terfynau o ran arian parod ac amser. Ni fydd cyfanswm y buddsoddiadau sicredig ac ansicredig mewn unrhyw un banc yn fwy na'r terfyn arian parod ar gyfer buddsoddiadau sicredig.

**Y Llywodraeth:** Benthyciadau, bondiau a biliau a gyhoeddwyd neu a warantwyd gan lywodraethau cenedlaethol, awdurdodau rhanbarthol a lleol a banciau datblygu amlochrog. Nid yw'r buddsoddiadau hyn yn agored i broses achub ('bail-in'), ac nid oes yna risg sylweddol o fethdaliad. Gellir gwneud buddsoddiadau o unrhyw swm gyda Llywodraeth Ganolog y DU am gyfnodau hyd at 50 mlynedd.

**Cyrff Corfforaethol:** Benthyciadau, bondiau a phapurau masnachol a gyhoeddir gan gwmnïau ac eithrio banciau a darparwyr cofrestredig. Nid yw'r benthyciadau hyn yn agored i fesurau achub 'bail-in', ond maent yn agored i'r risg o'r cwmni'n mynd yn fethdalwr. Ni wneir benthyciadau i gwmnïau nad ydynt wedi eu graddio heblaw eu bod yn rhan o gronfa amrywiol, er mwyn lledaenu'r risg yn ehangach.

**Darparwyr Cofrestredig:** Benthyciadau a bondiau a gyhoeddwyd ac a warantwyd gan neu a sicrhawyd ar, asedau Darparwyr Cofrestredig Tai Cymdeithasol, a arferwyd eu galw'n Gymdeithasau Tai. Caiff y cyrff hyn eu rheoleiddio'n llym gan yr Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau ac, fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, maent yn parhau i fod yn debygol iawn o dderbyn cefnogaeth gan y llywodraeth os bydd angen.

**Cytundebau Adbrynu o Chwith (Repo):** Trafodyn ariannol yw cytundeb adbrynu o chwith ble mae un endid (banc yn nodweddiadol) yn gwerthu buddsoddiadau (bondiau) i endid arall (y buddsoddwr) ar un dyddiad ac ar yr un

pryd mae’n cytuno i’w hadbrynu ar bris sefydlog yn ddiweddarach. Mae’r cytundeb yn cynnwys dau drafodyn cysylltiedig ond ar wahân - gwerthu bondiau gan y banc yn gyfnewid am arian parod, ac adbrynu’r bondiau’n ddiweddarach yn gyfnewid am swm uwch o arian parod.

**Cronfeydd Cyfun:** Cyfranddaliadau mewn cyfryngau buddsoddi amrywiol sy’n cynnwys unrhyw un o’r mathau uchod o fuddsoddiad, yn ogystal â chyfranddaliad ecwiti ac eiddo. Mantais y cronfeydd hyn yw bod y risgiau buddsoddi wedi’u gwasgaru’n ehangach, a bod gwasanaeth rheolwr cronfa proffesiynol ar gael am ffi. Defnyddir Cronfeydd Marchnad Arian Tymor Byr sy’n cynnig hylifedd yr un diwrnod a chyfnewidioldeb isel iawn, neu ddim o gwbl, fel dewis amgen i gyfrifon banc â mynediad ar unwaith.

**Atodiad D – Arferion Rheoli Trysorlys (ARhT)**

**ARhT1 Rheoli Risg**

Bydd Prif Swyddog Ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cynllunio, yn gweithredu ac yn monitro'r holl drefniadau ar gyfer adnabod, rheoli a chadw trefn ar risg rheoli'r trysorlys, yn adrodd o leiaf yn flynyddol ar eu digonolrwydd/addasrwydd, a bydd yn adrodd, fel mater o frys, amgylchiadau unrhyw anhawster gwirioneddol neu debygol wrth gyflawni amcanion Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu o ran hyn, y cyfan yn unol â'r gweithdrefnau a amlinellir yn A6 *Gofynion adrodd a threfniadau gwybodaeth reoli*.

Yng nghyswllt pob un o'r risgiau a ganlyn, mae'r trefniadau sy'n ceisio sicrhau cydymffurfiad â'r amcanion hyn wedi'u hamlinellu isod:-

**Risg Credyd Gwrthbartïon**

**Diffiniad**

*Y risg i wrthbarti fethu â chyflawni ei ymrwymiadau cytundebol i sefydliad dan fuddsoddiad, benthyciad, cyfalaf, arian prosiect neu bartneriaeth, yn enwedig o ganlyniad i ostyngiad yn nheilyngdod credyd y gwrthbarti, a'r effaith andwyol ar gyfalaf neu adnoddau cyfredol (refeniw) y sefydliad.*

**Camau gweithredu**

“Mae Dyfed-Powys yn ystyried diogelwch y prif symiau a fuddsoddir ganddo yn un o brif amcanion ei weithgareddau rheoli trysorlys. Felly, bydd yn sicrhau bod ei restrau gwrthbartïon a'u terfynau yn adlewyrchu agwedd ddarbodus tuag at sefydliadau y gallai adneuo arian gyda hwy, a bydd yn cyfyngu ei weithgareddau buddsoddi i'r offerynnau, dulliau a thechnegau y cyfeirir atynt yn ARhT4 Offerynnau, dulliau a thechnegau cymeradwy. Mae hefyd yn cydnabod yr angen am bolisi gwrthbarti ffurfiol mewn perthynas â'r sefydliadau hynny y gallai fenthyg arian oddi wrthynt, neu y gallai ymrwymo i drefniadau ariannu eraill gyda hwy, a bydd felly yn cynnal polisi o'r fath.”

Ceir manylion y Gwrthbartïon o fewn y Polisi a'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

**Risg Hylifedd**

**Diffiniad**

Y risg na fydd arian ar gael pan fydd ei angen, bod rheolaeth hylifedd aneffeithiol yn creu costau ychwanegol nad oeddynt wedi'u cynnwys yn y gyllideb ac y bydd amcanion busnes / gwasanaeth y sefydliad gan hynny'n cael eu cyfaddawdu.

**Camau gweithredu**

Swyddogaeth y Prif Swyddog Ariannol (Prif Gwnstabl) trwy staff rheoli'r trysorlys a gyflogir gan y Prif Gwnstabl fydd sicrhau bod ganddo adnoddau arian digonol er nid gormodol, trefniadau benthyca, cyfleusterau gorddrafft neu wrth gefn i alluogi iddo fod â lefelau arian ar gael iddo bob amser sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'i amcanion busnes / gwasanaeth.

Byddant yn sicrhau bob amser bod arian dros ben ar gael y gellir galw arno (£3 miliwn) trwy fuddsoddiadau mewn cyfrifon arian ar alw a fyddai ar gael unrhyw bryd.

Mae prosesau rhagweld llif arian wythnosol, misol a blynyddol wedi'u sefydlu yn unol â Rheoliadau Ariannol a Gweithdrefnau Rheoli Ariannol.

**Rheoli Risg Cyfraddau Llog**

**Diffiniad**

Risg y bydd amrywiadau yn lefelau cyfraddau llog yn creu baich annisgwyl neu nas rhagwelwyd ar gyllid y sefydliad, ac y mae'r sefydliad wedi methu amddiffyn ei hun yn ddigonol yn eu herbyn.

**Cam gweithredu**

Bydd Dyfed-Powys yn rheoli ei amlygiad i amrywiadau mewn cyfraddau llog gyda'r bwriad o ddal ei gostau llog, neu sicrhau ei refeniwiau llog, yn unol â'r symiau a ddarperir yn ei drefniadau cyllidebol fel y'u diwygiwyd yn unol ag A6 *Gofynion adrodd a threfniadau gwybodaeth reoli.*

Bydd yn cyflawni hyn trwy ddefnydd darbodus ar ei offerynnau, dulliau a thechnegau ariannu a buddsoddi, yn bennaf i greu sefydlogrwydd a sicrwydd costau a refeniwiau, ond ar yr un pryd yn cadw gradd ddigonol o hyblygrwydd i fanteisio ar unrhyw newidiadau annisgwyl, manteisiol posibl yn lefel neu strwythur cyfraddau llog. Dylai hyn fod yn amodol ar ystyriaeth ac, os oes angen, cymeradwyaeth unrhyw bolisi neu oblygiadau cyllidebol.

Dim ond o ffynonellau cymeradwy y bydd y CHTh yn ymgymryd â benthyciadau megis y PWLB, sefydliadau megis Banc Buddsoddi Ewrop a chan fanciau masnachol sydd ar restr o sefydliadau awdurdodedig CHTh, a gan hynny yn isafu ar risg cyfreithiol a rheoleiddio. Bydd pob buddsoddiad dros un flwyddyn angen cymeradwyaeth <u>flaenorol</u> gan Brif Swyddog Ariannol y CHTh.

**Rheoli risg Cyfraddau Cyfnewid**

**Diffiniad**

Risg y bydd amrywiadau mewn cyfraddau cyfnewid tramor yn creu baich annisgwyl neu nas rhagwelir ar gyllid y sefydliad, ac mae'r sefydliad wedi methu amddiffyn ei hun yn ddigonol yn eu herbyn.

**Cam gweithredu**

Ar hyn o bryd dim ond mewn cynnyrch sterling y mae Dyfed Powys yn buddsoddi, gan hynny nid oes risg cyfraddau cyfnewid.

**Rheoli Risg Ailariannu**

**Diffiniad**

Risg nad oes modd ailariannu arian benthyciadau, cyfalaf, prosiect neu bartneriaeth sy’n aeddfedu ar delerau sy'n adlewyrchu'r darpariaethau a wnaed gan y sefydliad ar gyfer yr ailariannu hynny, yn gyfalaf ac yn gyfredol (refeniw)

a / neu fod y telerau yn anghyson â'r prif amodau marchnad ar y pryd.

**Cam gweithredu**

Bydd Dyfed-Powys yn sicrhau bod ei fenthyciadau, ariannu preifat a threfniadau partneriaeth yn cael eu negydu, eu strwythuro a'u dogfennu, a bod proffil aeddfedu'r arian a godir felly yn cael ei reoli, gyda'r bwriad o sicrhau telerau cynnig ar gyfer adnewyddu neu ailariannu os oes angen, sydd yn gystadleuol neu mor ffafriol i'r CHTh ag y gellir ei gyflawni yn rhesymol yng ngoleuni amodau marchnad ar y pryd.

Bydd yn ymroi i reoli ei berthnasau gyda'i bartïon i gontract yn y trafodion hyn mewn modd sy'n sicrhau'r amcan hwn, a bydd yn osgoi gorddibyniaeth ar unrhyw un ffynhonnell ariannu os gallai hyn beryglu cyflawni'r uchod."

**Risg Cyfreithiol a Rheoleiddio**

**Diffiniad**

Risg y bydd y sefydliad ei hun, neu sefydliad y mae yn delio â'i weithgareddau rheoli'r trysorlys, yn methu gweithredu yn unol â'i bwerau cyfreithiol neu ofynion rheoleiddio, a bod y sefydliad yn dioddef colledion gan hynny.

**Cam gweithredu**

Bydd Dyfed-Powys yn sicrhau bod ei holl weithgareddau rheoli'r trysorlys yn cydymffurfio â'i bwerau statudol a gofynion rheoleiddio. Bydd yn dangos cydymffurfiad o'r fath, os oes gofyn iddo wneud hynny, i bob grŵp y mae'n delio â gweithgareddau o'r fath â hwy. Wrth fframio ei bolisi credyd a pharti i gontract o dan *A1 rheoli risg credyd a pharti i gontract,* bydd yn sicrhau bod tystiolaeth o bwerau partïon i gontract, awdurdod a chydymffurfiad yng nghyswllt y trafodion y gallent ddod i gysylltiad â Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, yn enwedig o ran dyletswydd gofal a'r ffioedd a godir.

Mae Dyfed Powys yn cydnabod y gallai newidiadau deddfwriaethol neu reoleiddio yn y dyfodol effeithio ar ei weithgareddau rheoli'r trysorlys ac, hyd y gellir yn rhesymol, bydd yn ceisio isafu ar y risg y bydd y rhain yn effeithio'n wrthwynebus ar y CHTh.

**Rheoli Twyll, Gwallau a Llygredd**

**Diffiniad**

Risg bod sefydliad yn methu adnabod yr amgylchiadau ble y gallai fod yn agored i risg o golled trwy dwyll, gwallau, llygredd neu bosibilrwydd arall yn ei waith rheoli'r trysorlys, ac yn methu defnyddio systemau a gweithdrefnau addas a chynnal trefniadau rheoli wrth gefn effeithiol i'r perwyl hwn. Mae'n cynnwys y maes risg y cyfeirir ato'n gyffredin fel risg gweithredol.

**Cam gweithredu**

Bydd Dyfed-Powys yn sicrhau ei fod wedi adnabod yr amgylchiadau a allai ei amlygu i risg o golled trwy dwyll, gwallau, llygredd neu bosibilrwydd arall yn ei waith rheoli'r trysorlys. Gan hynny, bydd yn defnyddio systemau a gweithdrefnau addas, a bydd yn cynnal trefniadau rheoli wrth gefn effeithiol i'r

perwyl hwn. Bydd Archwilio Mewnol yn adolygu'n rheolaidd swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys ac yn adrodd i'r Cydbwyllgor Archwilio.

Mae strwythur adrodd clir, wedi'i diffinio'n dda ar gyfer twyll ayyb wedi'i sefydlu mewn achos o fethiant systemau. Mae'r polisi yswiriant yn cynnwys sicrwydd ar gyfer twyll, gwallau a llygredd. Mae hyn wedi'i ddogfennu o fewn y Polisi Gwrth-dwyll a Llygredd ac wedi'i gynnwys o fewn Gweithdrefn Rheoli Ariannol A7.2 "Delio â Thwyll / Llygredd a Ddrwgdybir."

**Rheoli Risg Marchnad**

**Diffiniad**

Risg trwy amrywiadau gwrthwynebus yng ngwerth y prif symiau y mae sefydliad yn eu benthyca ac yn eu buddsoddi, bod ei bolisïau ac amcanion rheoli'r trysorlys yn cael eu cyfaddawdu, a'i fod wedi methu ag amddiffyn ei hun yn ddigonol yn erbyn yr effeithiau hyn.

**Cam gweithredu**

Bydd Dyfed-Powys yn ceisio sicrhau na fydd ei bolisïau ac amcanion rheoli'r trysorlys penodol yn cael eu cyfaddawdu trwy amrywiadau marchnad gwrthwynebus yng ngwerth y prif symiau y mae'n eu buddsoddi, a chan hynny bydd yn ceisio amddiffyn ei hun rhag effeithiau amrywiadau o'r fath.

Dim ond sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr fenthyca partïon i gontract diweddaraf a gymeradwywyd gan Arlingclose y bydd yn buddsoddi ynddynt.

**ARhT2 Mesur Perfformiad**

Mae Dyfed Powys yn ymrwymedig i sicrhau gwerth am arian yn ei weithgareddau rheoli'r trysorlys ac i ddefnyddio methodoleg perfformiad i gefnogi'r nod hwnnw, o fewn y fframwaith a amlinellir yn ei ddatganiad polisi rheoli'r trysorlys.

Gan hynny, bydd swyddogaeth rheoli'r trysorlys yn destun dadansoddiad parhaus o'r gwerth y mae'n ei ychwanegu i gefnogi amcanion busnes neu wasanaeth penodol y sefydliad. Bydd yn agored i archwiliad rheolaidd o ddulliau amgen o gyflenwi gwasanaeth, o argaeledd mentrau cyllidol neu grant neu gymhorthdal eraill, a'r cwmpas ar gyfer gwelliannau posibl eraill. Bydd perfformiad y swyddogaeth rheoli'r trysorlys yn cael ei fesur gan ddefnyddio'r meini prawf a amlinellir isod:

Bydd y mesurau / meincnodau perfformiad ar gyfer rheoli'r trysorlys yn cynnwys yr isod:

| | Mesur Perfformiad |
|---|---|
| 1 | Cyflawni'r incwm buddsoddi sydd wedi'i gyllidebu |
| 2 | Sicrhau sicrwydd balans arian am 31 dydd |

| | |
|---|---|
| 3 | Sicrhau mai dim ond gyda sefydliadau sy'n cydymffurfio â Strategaeth Rheoli'r Trysorlys flynyddol y mae buddsoddiadau yn cael eu gosod. |
| 4 | Sicrhau cadw at gyfyngiadau partïon i gontract cymeradwy (cyfeirir atynt yn TMPau 1/ 5) |
| 5 | Lefelau disgwyliedig o Fuddsoddiadau'r mis o'u cymharu â lefel gwirioneddol y buddsoddiad |
| 6 | Cyfradd adennill gyfartalog o fuddsoddiadau'r mis o'i gymharu â chyfradd darged |

### ARhT3 Penderfyniadau a dadansoddi

Bydd Dyfed Powys yn cynnal cofnodion llawn o'i benderfyniadau rheoli'r trysorlys ac o'r prosesau a'r arferion a gymhwyswyd wrth ddod i'r penderfyniadau hynny, at ddibenion dysgu o'r gorffennol ac ar gyfer dangos bod camau rhesymol wedi'u cymryd i sicrhau bod yr holl faterion sy'n berthnasol i'r penderfyniadau hynny wedi'u hystyried ar y pryd.

Ni fydd penderfyniadau yn ymwneud ag ariannu, benthyca, rhoi benthyg a thechnegau ac offerynnau newydd yn cael eu gwneud oni bai eu bod yn cydymffurfio â Pholisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Bydd yr holl benderfyniadau yn agored i graffu annibynnol.

### ARhT4 Offerynnau, Dulliau a Thechnegau Cymeradwy

Bydd Dyfed Powys yn ymgymryd â'i weithgareddau rheoli'r trysorlys trwy ddefnyddio dim ond yr offerynnau, y dulliau a'r technegau hynny a nodir yn y Rheoliadau Ariannol a Gweithdrefnau Rheoli Ariannol ac o fewn y cyfyngiadau a'r paramedrau a ddiffinnir yn ARhT1 Rheoli Risg.

Mae adran 7.8F y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn rhoi cyfarwyddyd ar drefniadau Rheoli'r Trysorlys a Bancio ac mae'r Weithdrefn Rheoli Ariannol 2.1 *Trefniadau'r Trysorlys a threfniadau Bancio* yn pennu'r offerynnau, dulliau a thechnegau a gymeradwyir.

### ARhT4 Trefnu, Egluro a Gwahanu Cyfrifoldebau a Threfniadau Delio

Mae Dyfed-Powys yn teimlo ei bod hi'n hanfodol, at ddibenion rheoli a monitro effeithiol ar ei weithgareddau rheoli'r trysorlys, ar gyfer gostwng risg o dwyll neu wall, ac er mwyn sicrhau'r perfformiad gorau, bod y gweithgareddau hyn yn cael eu strwythuro a'u rheoli mewn modd cwbl integredig, a bod, bob amser, eglurder o ran cyfrifoldebau rheoli'r trysorlys.

Yr egwyddor y seilir hyn arni yw gwahaniaeth clir rhwng y rheini sydd â'r cyfrifoldeb o osod polisïau rheoli'r trysorlys a'r rheini sydd â chyfrifoldeb dros weithredu a rheoli'r polisïau hyn, yn enwedig o ran gweithredu a throsglwyddo arian, cofnodi a gweinyddu penderfyniadau rheoli'r trysorlys, ac archwilio ac adolygu swyddogaeth rheoli'r trysorlys.

Os a phan fydd Dyfed Powys yn bwriadu, o ganlyniad i ddiffyg adnoddau neu

amgylchiadau eraill, ymadael â'r egwyddorion hyn, bydd Prif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl yn sicrhau bod y rhesymau yn cael eu hadrodd yn gywir i Brif Swyddog Ariannol CHTh yn unol ag ARhT6 *Gofynion Adrodd a Threfniadau Gwybodaeth Reoli*, a'r goblygiadau wedi'u hystyried a'u gwerthuso yn gywir.

Bydd Prif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl yn sicrhau bod datganiadau ysgrifenedig clir o'r cyfrifoldebau ar gyfer pob swydd sy'n gysylltiedig â rheoli'r trysorlys, a'r trefniadau ar gyfer cyflenwi mewn absenoldeb. Bydd Prif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl hefyd yn sicrhau bob amser bod y rheini sy'n gysylltiedig â rheoli'r trysorlys yn dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau a amlinellir ac yn adrodd ar unrhyw amrywiad o'r rhain wrth Brif Swyddog Ariannol y CHTh.

Bydd Prif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl yn sicrhau bod dogfennau priodol ar gyfer pob deliant a thrafodyn a bod gweithdrefnau yn bodoli ar gyfer trawsyrru arian yn effeithiol a darparu tystiolaeth o hyn yn ôl yr angen i Brif Swyddog Ariannol CHTh.

**ARhT6 Gofynion Adrodd a Threfniadau Gwybodaeth Reoli**

Bydd Dyfed-Powys yn sicrhau bod adroddiadau rheolaidd yn cael eu paratoi a'u hystyried ar weithredu ei bolisïau rheoli'r trysorlys; ar effeithiau penderfyniadau a wneir a thrafodion a gyflawnir i geisio'r polisïau hynny; ar oblygiadau newidiadau, yn benodol cyllidebol, yn deillio o ffactorau rheoleiddio, economaidd, marchnad neu eraill sy'n effeithio ar ei weithgareddau rheoli'r trysorlys; ac ar berfformiad y swyddogaeth rheoli'r trysorlys.

Awgrymir y dylai'r broses adrodd a ganlyn gael ei chyflwyno gan Brif Swyddog Ariannol y CHTh:-

Gofynion Adrodd Blynyddol cyn dechrau'r flwyddyn:

- Adolygu datganiad polisi a strategaeth Rheoli'r Trysorlys,
- Adolygu Arferion Rheoli'r Trysorlys,
- Dangosyddion Darbodus.

Gofynion adrodd canol blwyddyn:

- Gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys yr ymgymerwyd â hwy,
- Amrywiadau (os o gwbl) o'r polisïau / arferion cytûn,
- Adroddiad perfformiad,
- Perfformiad yn erbyn Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus.

Gofynion adrodd blynyddol ar ôl diwedd blwyddyn:

- Perfformiad Swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys,
- Adroddiad ar oblygiadau risg y penderfyniadau a wnaed a'r trafodion a gyflawnwyd,

- Adroddiad ar unrhyw amgylchiadau o ddiffyg cydymffurfiad â Datganiad Heddlu Rheoli'r Trysorlys a TMPau.

**ARhT7 Trefniadau Cyllidebu, Cyfrifyddu ac Archwilio**

Bydd Prif Swyddog Ariannol y CHTh yn paratoi a bydd y CHTh yn cymeradwyo ac, os oes angen o bryd i'w gilydd, yn diwygio'r gyllideb flynyddol ar gyfer y swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys, ynghyd â'r incwm cysylltiedig. Y materion i'w cynnwys yn y gyllideb fydd isafswm y rhai sy'n ofynnol trwy statud neu reoliad, ynghyd â gwybodaeth o'r fath a fydd yn dangos cydymffurfiad gyda A1 *Rheoli Risg*, A2 *Mesur Perfformiad* a A4 *Offerynnau, Dulliau a Thechnegau Cymeradwy*. Bydd y Prif Swyddog Ariannol yn defnyddio rheolaethau effeithiol dros ei gyllideb a bydd yn adrodd ar ac yn argymell unrhyw newidiadau sy'n ofynnol yn unol â A6 *Gofynion Adrodd a Threfniadau Gwybodaeth Reoli*.

Bydd Dyfed-Powys yn rhoi cyfrif am ei weithgareddau rheoli'r trysorlys, am benderfyniadau a wneir a thrafodion a gyflawnir, yn unol ag arferion a safonau cyfrifyddu priodol, a gyda gofynion statudol a rheoleiddio sydd mewn grym ar y pryd ac yn benodol y Cod Ymarfer CIPFA a Nodiadau Cyfarwyddyd Trawsadrannol ar gyfer Rheoli'r Trysorlys o fewn Gwasanaethau Cyhoeddus a gyhoeddwyd yn 2011. Bydd y Prif Swyddog Ariannol yn gweithredu yn unol â datganiad polisi'r CHTh a TMP a *CIPFA: Safon Arfer Broffesiynol ar Reoli'r Trysorlys.*

Bydd y CHTh yn sicrhau bod gan ei archwilwyr, a'r rheini sydd â chyfrifoldeb adolygu rheoleiddio, fynediad at yr holl wybodaeth a phapurau sy'n cefnogi gweithgareddau'r swyddogaeth rheoli'r trysorlys fel sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni eu rolau yn gywir, a bod gwybodaeth a phapurau o'r fath yn dangos cydymffurfiad â pholisïau ac arferion cymeradwy mewnol ac allanol.

Bydd gweithdrefnau a phrosesau Rheoli'r Trysorlys yn cael eu harchwilio yn unol â strategaeth archwilio ar sail risg archwilio mewnol.

Bydd archwilwyr fel rhan o'u cyfrifoldebau wrth archwilio'r Datganiad o Gyfrifon, yn casglu gwiriad annibynnol gan bartïon i gontract buddsoddiadau a gedwir gan y CHTh.

**ARhT8 Arian a Rheoli Llif Arian**

Oni bai bod gofynion statudol neu reoleiddio yn mynnu fel arall, bydd yr holl arian sydd gan Ddyfed Powys o dan reolaeth y CHTh, a bydd yn cael ei gydgrynhoi at ddibenion llif arian a rheoli buddsoddiadau. Bydd rhagamcaniadau llif arian yn cael eu paratoi yn rheolaidd, a bydd Prif Swyddog Ariannol y CHTh a Phrif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl yn sicrhau bod y rhain yn ddigonol at ddibenion monitro cydymffurfiad gyda A1 *Rheoli Risg Hylifedd.*

**ARhT9 Gwyngalchu Arian**

Mae Dyfed Powys yn effro i'r posibilrwydd y gallai ddod yn destun ymgais i'w gynnwys mewn trafodyn sy'n cynnwys gwyngalchu arian. Gan hynny, bydd yn cynnal gweithdrefnau ar gyfer gwirio a chofnodi hunaniaeth partïon i gontract ac yn adrodd ar unrhyw amheuon, a bydd yn sicrhau bod staff sy'n gysylltiedig â hyn yn cael eu hyfforddi'n llawn.

Dim ond partïon i gontract sydd wedi'u cymeradwyo gan ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys fydd yn cael eu defnyddio. Cytunir ar delerau ac amodau rhwng y parti i gontract a'r CHTh cyn trosglwyddo arian.

Mae'r Ddeddf Enillion Troseddau 2020 (POCA) a'r Rheoliadau Gwyngalchu Arian 2007 hefyd wedi ehangu cyfrifoldebau archwilwyr Swyddfa Archwilio Cymru. Mae gofyn i'r Archwilydd Cyffredinol a'i staff a chontractwyr adrodd wrth yr Awdurdod Troseddau Difrifol a Threfnedig os ydynt yn amau, o ganlyniad i wybodaeth sydd wedi'i chasglu yn ystod eu gwaith, y gallai gweithredoedd troseddol fod wedi digwydd sy'n cynnwys elw ariannol.

Os oes unrhyw staff sy'n gysylltiedig â Rheoli'r Trysorlys yn amau gwyngalchu arian yna dylid dwyn hyn i sylw Prif Swyddog Ariannol y CHTh a Phrif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl.

**ARhT10 Hyfforddiant a Chymwysterau**

Mae Dyfed Powys yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod yr holl staff sy'n gysylltiedig â swyddogaeth rheoli'r trysorlys wedi'u harfogi'n llawn i ymgymryd â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sydd wedi'u neilltuo iddynt. Gan hynny bydd y CHTh yn ceisio penodi unigolion sy'n alluog ac yn brofiadol a bydd yn darparu hyfforddiant i staff i'w galluogi i gaffael a chynnal lefel briodol o arbenigedd, gwybodaeth a sgiliau. Bydd Prif Swyddog Ariannol y CHTh yn argymell ac yn gweithredu'r trefniadau angenrheidiol.

Bydd Prif Swyddog Ariannol y CHTh yn sicrhau bod gan yr holl staff sydd â chyfrifoldebau rheoli'r trysorlys, gan gynnwys y rheini sy'n gyfrifol am graffu, fynediad at hyfforddiant sy'n berthnasol i'w anghenion a'r cyfrifoldebau hynny.

Mae'r rheini sydd â chyfrifoldeb llywodraethu yn deall eu cyfrifoldeb unigol i sicrhau bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i ymgymryd â'u rôl yn effeithiol.

Mae staff sy'n ymgymryd â dyletswyddau rheoli'r trysorlys yn mynychu digwyddiadau hyfforddi perthnasol a ddarperir gan Arlingclose ac yn mynychu cyfarfod strategaeth chwarterol. Bydd staff hefyd yn mynychu digwyddiadau hyfforddi perthnasol a gynhelir gan CIPFA.

Anfonir bwletin e-bost wythnosol gan Arlingclose yn cynnig cyngor ar unrhyw ddatblygiadau economaidd a diwygiadau a awgrymir i gyfyngiadau partïon i gontract.

**ARhT11 Defnydd o Ddarparwyr Gwasanaeth Allanol**

Mae Dyfed-Powys yn cydnabod bod cyfrifoldeb dros benderfyniadau rheoli'r trysorlys yn parhau gyda'r CHTh bob amser. Mae Dyfed-Powys yn cydnabod gwerth posibl cyflogi darparwyr allanol ar wasanaethau rheoli'r trysorlys, er mwyn cael mynediad at sgiliau ac adnoddau arbenigol. Pan fydd yn defnyddio darparwyr gwasanaeth o'r fath, bydd yn sicrhau ei fod yn gwneud hynny am resymau a fydd wedi'u cyflwyno i werthusiad llawn o'r costau a'r buddion. Bydd hefyd yn sicrhau bod telerau eu penodi a dulliau asesu eu gwerth yn cael eu cytuno a'u dogfennu yn gywir, ac yn amodol ar adolygiad rheolaidd. A bydd yn sicrhau, ble bo'n ymarferol ac yn angenrheidiol, bod rhychwant o ddarparwyr gwasanaeth yn cael eu defnyddio, er mwyn osgoi gorddibyniaeth ar un neu nifer fechan o gwmnïau. Os yw gwasanaethau yn amodol ar drefniadau tendro neu

ail-dendro ffurfiol, cedwir at ofynion deddfwriaethol bob amser. Prif Swyddog Ariannol y CHTh sy'n gyfrifol am fonitro trefniadau o'r fath.

Mae gan Ddyfed Powys gytundeb gydag Arlingclose ar gyfer darparu cyngor/cymorth fel a ganlyn:

- Cyngor strategol
- Cyngor cyllid cyfalaf
- Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys
- Rhagweld Cyfraddau Llog a Chyngor Economaidd
- Cyngor Polisi Buddsoddi
- Cyngor ar Ddyledion
- Cymorth Partïon i Gontract
- Seminarau a hyfforddiant
- Cyfarfodydd cleient a gwefan.

**ARhT12 Llywodraethu Corfforaethol**

Mae Dyfed-Powys wedi mabwysiadu a gweithredu argymhellion allweddol Cod Ymarfer CIPFA. Ystyrir bod hyn yn hanfodol i gyflawni llywodraethu corfforaethol cywir o fewn rheoli'r trysorlys, a bydd Prif Swyddog Ariannol CHTh a Phrif Swyddog Ariannol y Prif Gwnstabl yn monitro ac, os yw'n angenrheidiol, adrodd ar effeithlonrwydd y trefniadau hyn.

Mae'r Cod yn argymell bod sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yn datgan eu hymrwymiad i gynnwys egwyddorion llywodraethu corfforaethol yn eu gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys, yn enwedig didwylledd a thryloywder.

Mae Dyfed Powys yn ymrwymedig i gynnwys llywodraethu corfforaethol cywir drwyddi draw ei fusnesau a gwasanaethau, ac i sefydlu egwyddorion ac arferion y gellir eu defnyddio i gyflawni hyn. Gan hynny, bydd ei swyddogaeth rheoli'r trysorlys yn cael ei chynnal gyda didwylledd a thryloywder, gonestrwydd, cyfanrwydd ac atebolrwydd a adlewyrchir yn Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol a Gweithdrefnau Rheoli Ariannol Dyfed Powys.

Bydd polisïau ac arferion Rheoli'r Trysorlys y sefydliad yn cael eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd.

Mae gan Brif Swyddog Ariannol y CHTh oruchafiaeth dros swyddogaethau Rheoli'r Trysorlys a bydd yn sicrhau bod gwahaniaeth digonol ar ddyletswyddau yn bodoli rhwng staff sydd â chyfrifoldeb dros ymgymryd â Swyddogaethau Rheoli'r Trysorlys.

## Atodiad E - Dangosyddion Darbodus a Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw

Mae Deddf Llywodraeth Leol 2003 yn gofyn i'r CHTh ystyried Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf yn Awdurdodau Lleol (y Cod Darbodus) Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth wrth bennu faint o arian y gall fforddio ei fenthyca. Amcanion y Cod Darbodus yw sicrhau, o fewn fframwaith clir, bod cynlluniau buddsoddi cyfalaf awdurdodau lleol yn fforddiadwy, yn ddarbodus ac yn gynaliadwy, a bod penderfyniadau rheoli'r trysorlys yn cael eu gwneud yn unol ag arfer proffesiynol da. Er mwyn dangos bod y CHTh wedi bodloni'r amcanion hyn, mae'r Cod Darbodus yn amlinellu'r dangosyddion a ganlyn y mae'n rhaid eu gosod a'u monitro bob blwyddyn.

### 1. Amcangyfrifon Gwariant Cyfalaf

Gellir crynhoi gwariant cyfalaf ac ariannu arfaethedig y CHTh fel a ganlyn:

| Gwariant Cyfalaf ac Ariannu | 2018/19 Diwygiedig | 2019/20 Amcan | 2020/21 Amcan | 2021/22 Amcan | 2022/23 Amcan | 2022/23 Amcan |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £k | £k | £k | £k | £k | £k |
| **Prosiectau Ystadau** | 2,309 | 4,250 | 16,250 | 3,900 | 500 | 500 |
| **Cerbydau / Cwch** | 953 | 962 | 1,095 | 1,050 | 1,050 | 1,050 |
| **TG a Chynlluniau Eraill** | 3,217 | 3,405 | 2,424 | 2,160 | 1,690 | 1,440 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **6,479** | **8,617** | **19,769** | **7,110** | **3,240** | **2,990** |
| **Cyllid Grantiau** | 318 | 325 | 325 | 325 | 325 | 325 |
| **Benthyca** | 0 | 4,250 | 16,250 | 3,900 | 0 | 0 |
| **Cyfalaf Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu (NPAS)** | 23 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Grantiau Cyfalaf** | 324 | 243 | 183 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfraniad o Gyfrif Refeniw** | 0 | 500 | 1,000 | 1,500 | 2,000 | 2,500 |
| **Derbynebau Cyfalaf** | 2,402 | 150 | 0 | 891 | 1,500 | 0 |
| **Cyfalaf Wrth Gefn** | 3,412 | 3,150 | 2,011 | 495 | -584 | 166 |
| **Cyfanswm Ariannu** | **6,479** | **8,617** | **19,769** | **7,110** | **3,240** | **2,990** |

### 2. Amcangyfrif o'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf:

Mae'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf yn mesur angen sylfaenol y Comisiynydd i fenthyca at ddibenion gwariant cyfalaf.

| Gofyniad Ariannu Cyfalaf | 31.03.19 Diwygiedig £m | 31.03.20 Amcan £m | 31.03.21 Amcan £m | 31.03.22 Amcan £m | 31.03.23 Amcan £m | 31.03.24 Amcan £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | 0 | 0 | 4.250 | 16.250 | 3.900 | 0 |

Rhagwelir y bydd y Gofyniad Ariannu Cyfalaf yn codi'n sylweddol yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf wrth i wariant cyfalaf a ariennir trwy ddyled fod yn uwch na'r symiau a roddir wrth gefn i ad-dalu dyled.

| Gofyniad Ariannu Cyfalaf | 31.03.18 Diwygiedig £m | 31.03.19 Amcan £m | 31.03.20 Amcan £m | 31.03.21 Amcan £m |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 0 | 0 | 0 | 3,882 |

### 3. Dyledion Gros a'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf:

Er mwyn sicrhau dros y tymor canolig y bydd y ddyled at ddiben cyfalaf yn unig, dylai'r CHTh sicrhau nad yw dyled, ac eithrio yn y tymor byr, yn fwy na chyfanswm y gofyniad ariannu cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon o unrhyw ofyniad ariannu cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flwyddyn ariannol nesaf. Mae hyn yn ddangosydd darbodaeth allweddol.

| Dyled | 31.03.19 Diwygiedig £m | 31.03.20 Amcan £m | 31.03.21 Amcan £m | 31.03.22 Amcan £m | 31.03.23 Amcan £m | 31.03.24 Amcan £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Benthyca** | **1.936** | **5.979** | **21.591** | **20.664** | **4.089** | **0** |
| **Cyfanswm Dyled** | **1.936** | **5.979** | **21.591** | **20.664** | **4.089** | **0** |

Rydym ni ar hyn o bryd yn torri'r dangosydd darbodus hwn oherwydd rhagwelir y bydd dyled allanol yn uwch na'r CFR ar ddiwedd y flwyddyn gyfredol dros y tair blynedd nesaf. Mae hyn yn sgil ad-dalu'r CFR o'r cronfeydd wrth gefn yn 2015/16. Gwnaed y penderfyniad hwn oherwydd aseswyd ei bod yn fwy manteisiol yn economaidd i ad-dalu'r CFR yn defnyddio cronfeydd oedd yn bodoli na gwneud yr Isafswm Taliad Refeniw i leihau'r balans bob blwyddyn. Mae hyn wedi arwain at arbedion refeniw yr amcangyfrifir eu bod yn £1.6m dros gyfnod o bum mlynedd.

### Ffin weithredol ar gyfer Dyledion Allanol:

Mae'r ffin weithredol wedi'i seilio ar amcan y CHTh o'r achos fwyaf tebygol h.y. darbodus, ond nid y senario achos gwaethaf ar gyfer dyledion allanol. Mae'n cysylltu'n uniongyrchol ag amcangyfrif y CHTh o wariant cyfalaf, y gofyniad ariannu cyfalaf a gofynion llif arian, ac mae'n offeryn rheoli allweddol ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn. Mae PFI a rhwymedigaethau eraill nad ydynt yn fenthycau hefyd yn rhan o ddyled y CHTh.

Gosodir y cyfyngiadau yn y tabl isod:

| Ffin Weithredol | 31.03.19 Diwygiedig £m | 31.03.20 Amcan £m | 31.03.21 Amcan £m | 31.03.22 Amcan £m | 31.03.23 Amcan £m | 31.03.24 Amcan £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Benthyca** | 19.769 | 19.769 | 19.769 | 19.769 | 19.769 | 19.769 |
| **Rhwymedigaethau tymor hir eraill** | 1.000 | 1.000 | 1.000 | 1.000 | 1.000 | 1.000 |
| **Cyfanswm Dyled** | **20.769** | **20.769** | **20.769** | **20.769** | **20.769** | **20.769** |

## 4. Cyfyngiad Awdurdodedig ar gyfer Dyled Allanol:

Y cyfyngiad awdurdodedig yw'r cyfyngiad benthyca fforddiadwy a bennir i gydymffurfio â'r Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Dyma'r swm uchaf o ddyledion y gall y CHTh fod mewn dyled yn gyfreithiol. Mae'r cyfyngiad awdurdodedig yn cynnig ychydig o le uwchlaw'r ffin weithredol ar gyfer symudiadau arian anarferol.

Dangosir y cyfyngiadau sydd wedi'u gosod yn y tabl isod:

| Cyfyngiad Awdurdodedig | 2018/19 Terfyn £m | 2019/20 Terfyn £m | 2020/21 Terfyn £m | 2021/22 L Terfyn £m | 2022/23 Terfyn £m | 2023/24 Terfyn £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Benthyca** | 28.500 | 28.500 | 28.500 | 28.500 | 28.500 | 28.500 |
| **Rhwymedigaethau tymor hir eraill** | 1.000 | 1.000 | 1.000 | 1.000 | 1.000 | 1.000 |
| **Cyfanswm Dyled** | **29.500** | **29.500** | **29.500** | **29.500** | **29.500** | **29.500** |

## 5. **Cymhareb Costau Ariannu i Ffrwd Refeniw Net**

Mae hwn yn ddangosydd fforddiadwyedd ac yn tynnu sylw at oblygiadau refeniw ar wariant cyfalaf cyfredol ac arfaethedig trwy adnabod cyfran y gyllideb refeniw sy'n ofynnol i fodloni costau cyllido, net o'r incwm buddsoddi. Mae'r dangosydd hwn yn dangos costau ariannu yng nghyd-destun y gyllideb gyfan.

Disgwylir i hwn gynyddu dros y cyfnod oherwydd y gofyniad i ymgymryd â benthyca i gefnogi'r buddsoddiad sydd ei angen o ganlyniad i'r Rhaglen Gyfalaf. Rhagwelir o hyd y bydd yn parhau'n llai na 1% o'r gyllideb gyfan ac felly ni ddylai beri problemau tymor hir o ran fforddiadwyedd a chynaladwyedd.

| | 2018/19 Diwygiedig £k | 2019/20 Amcan £k | 2020/21 Amcan £k | 2021/22 Amcan £k | 2022/23 Amcan £k | 2023/24 Amcan £k |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau Ariannu** | 40 | 144 | 1,042 | 1,813 | 1,759 | 1,067 |
| **Ffrwd Refeniw Net** | 99,100 | 106,897 | 111,655 | 115,951 | 119,090 | 122,057 |
| **Cymhareb** | 0.04% | 0.13% | 0.93% | 1.56% | 1.48% | 0.87% |

### Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw Blynyddol 2019/20

Ble mae'r CHTh yn ariannu gwariant cyfalaf trwy ddyled, rhaid iddo neilltuo adnoddau i ad-dalu'r ddyled honno yn ystod blynyddoedd diweddarach. Mae'r swm a godir i'r gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu dyled yn cael ei alw yn Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) er nid oes unrhyw isafswm statudol wedi bod ers 2008. Mae’n ofynnol dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 i'r CHTh ystyried Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddarpariaeth Isafswm Refeniw.

Nod cyffredinol canllawiau LlC yw sicrhau bod dyledion yn cael eu had-dalu sydd naill ai'n weddol gymesur gyda'r hyn y mae gwariant cyfalaf yn darparu buddion ar ei gyfer neu, yn achos benthyca sydd wedi'i gefnogi gan Grant Cymorth Refeniw Llywodraeth, sy'n weddol gymesur â'r cyfnod ymhlyg wrth benderfynu ar y grant hwnnw.

Mae canllawiau LlC yn gofyn i'r CHTh gymeradwyo datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw blynyddol bob blwyddyn, ac mae'n argymell nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm darbodus o Ddarpariaeth Isafswm Refeniw.

Er y rhagwelir y bydd y CFR yn parhau ar sero am flwyddyn neu ddwy (ac felly bydd yr MRP yn sero) caiff y polisi ei ddefnyddio o hyd i amcangyfrif costau MRP yn y dyfodol i’r cyfrif refeniw ar gyfer blynyddoedd y dyfodol wrth osod y cynllun ariannol a’r rhaglen gyfalaf tymor canolig.

Dim ond opsiynau a argymhellir yn y canllawiau y mae'r datganiad a ganlyn yn ei gynnwys:

**DATGANIAD DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW BLYNYDDOL**

Mae'r polisi a ganlyn wedi'i osod gan y CHTh mewn perthynas â Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2019/20.

**Benthyca â Chymorth - Dull Gofyniad Ariannu Cyfalaf**

Mae Darpariaeth Isafswm Refeniw'r un faint â 4% o'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf â Chymorth ar ddiwedd y flwyddyn ariannol flaenorol. Ar gyfer 2019/20 amcangyfrifir fod hyn yn sero.

**Benthyca Darbodus - Dull Dibrisiant**

Bydd Darpariaeth Isafswm Refeniw yn gyfartal â'r ddarpariaeth sy'n ofynnol yn unol â chyfrifo dibrisiant yng nghyswllt yr ased y mae'r gwariant wedi'i ariannu gan fenthyciad darbodus neu drefniadau credyd digymorth.

(a) Bydd Darpariaeth Isafswm Refeniw yn parhau i gael ei gwneud yn flynyddol hyd nes y bydd swm cronnus darpariaeth o'r fath yn gyfartal â'r gwariant gwreiddiol a gyllidwyd.

(b) Wrth waredu’r ased, ni fydd swm y derbyniad cyfalaf yn cael ei ddwyn i'r cyfrif refeniw a bydd y CHTh yn cydymffurfio â gofynion arferol Deddf 2003 ar ddefnydd derbyniadau cyfalaf.

(c) Ble mae canran y gwariant ar yr ased a ariannwyd trwy fenthyciad darbodus neu drefniadau credyd digymorth yn llai na 100%, bydd Darpariaeth Isafswm Refeniw yn gyfartal â'r un ganran o'r ddarpariaeth sy'n ofynnol o dan gyfrifo dibrisiant.

**Prydlesi Cyllid a PFI**

Yn achos prydlesi cyllid a chytundebau PFI mantolen, ystyrir y bydd y gofyniad Darpariaeth Isafswm Refeniw wedi'i fodloni gan dâl sydd gyfwerth ag elfen o'r rhent/ffi sy'n mynd tuag at ostwng rhwymedigaeth y fantolen.